Calon Lan

1. Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'i berlau mân,
Gofyn wyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân

Cytgan:

Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos,
Does ond calon lân all ganu
Canu'r dydd a chanu'r nos.

2. Pe dymunwn olud bydol,
Hedyn buan ganddo sydd:
Golud calon lân rinweddol
Yn dwyn bythol elw fydd.
Cytgan

3. Hwyr a bore fy nymuniad
Gwyd i'r nef ar edyn cân
Ar i Dduw, er mwyn fy Ngheidwad,
Roddi i mi galon lân.
Cytgan